Ers blynnyddoedd maith, mae Cymru wedi bod yn frwdfrydig ynglŷn â chynhwysiant cymdeithasol trwy ddysgu oedolion a chymunedol yn gysylltiedig â chynhwysiant cymdeithasol ac ehangu mynediad. Mae ganddi hanes balch sy'n dyddio'n ôl i ddyddiau'r Cytundebau Dysgu (gweler Lewis 1993; Davies 2003) yn ogystal ag ymglymiad undebau llafur (Francis 1973a, 1973b; Burge 2000), a arweiniodd yn fwy diweddar at waith arloesol Prifysgol Gymunedol y Cymoedd a arweiniwyd gan Brifysgol Abertawe (Elliott et al 2000; Humphreys a Saunders 2000).

Gellir diffinio oedolion a'r gymuned yn dysgu (OGD) fel darpariaeth dysgu nad yw'n benodol i alwedigaeth, o fewn lleoliadau cymunedol lleol, ar gyfer pobl 19 oed a hŷn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008).

Gyda'r math hwn o gylch gwaith, mae oedolion a'r gymuned yn dysgu yn amrywiol dros ben o ran dysgwyr, amgylcheddau, addysgeg a phynciau (gweler Connolly et al 2008). Mae'r cysyniad yn ffordd dda o arwain ymgysylltu â dysgu yn y cymunedau anoddaf i'w cyrraedd, yn enwedig trwy ddulliau anffurfiol o addysgu a dysgu. Mae ymchwil gan McGivney (1999), Coffield (2000) a'r Ganolfan er Buddion Ehangach Dysgu yn dadlau dros effaith bositif oedolion a'r gymuned yn dysgu ar iechyd, hyder, twf personol, sgiliau a chyflogadwyedd. Mae astudiaethau'n honni bod oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn fwy tebygol o wneud ymarfer corff, rhoi'r gorau i ysmegu, lleihau eu defnydd o alcohol (James 2004), yn llai tebygol o fynd yn ordew (Feinstein et al 2002, 2003) ac yn fwy

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



tebygol o dderbyn gwasanaethau sgrinio iechyd. Amcangyfrifwyd y gellid atal 116-134 o ganserau am bob 100,000 menyw a gofrestrwyd mewn addysg i oedolion (Sabates a Feinstein 2004). Mae oedolion hŷn sydd â salwch yn nodi gwelliant yn eu hiechyd (Dench a Regan 2000). Mae dysgu yn gwella hyder, hunanwerth a lles cyffredinol (Carlton a Soulsby 1999). Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu fel oedolion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, yn fwy tebygol o fod ag agweddau hyblyg ac yn llai tebygol o fod yn anoddefgar o fam pobl eraill. Mae dysgu'n cael effaith positif ar gydlyniant cymdeithasol (Preston a Feinstein 2004). Yn ogystal, mae'n ymddangos bod mynd â

menywod sydd heb gymwysterau at lefel 2 yn lleihau'r risg o iselder ysbryd o 15% pan maen nhw'n 42 oed, gan arbed £200m y flwyddyn i'r wlad (Chevalier a Feinstein 2006). Darperir oedolion a'r gymuned yn dysgu gan awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, colegau addysg bellach (AB), sefydliadau addysg uwch (AU), darparwyr dysgu seiliedig ar waith a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Hefyd mae cysylltiadau pwerus traws-sector eraill – mae enghreifftiau'n cynnwys undebau llafur, carchardai, amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Felly mae partneriaethau cydweithrediadol yn flaenoriaeth bennaf (gweler Furlong et al 2008).

Pobl a'u hanesion

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Mae llawer o hanesion i'w hadrodd ond rydym wedi cyfyngu'n hunain i ddwy stori ym mhob adran, a newidiwyd pob enw.

Hanesion yn ymwneud â symud ymlaen i gyflogaeth a phrofiad gwaith

Roedd José wedi gwneud gwaith bar yn y gorffennol ond cafodd ei ddiswyddo. Roedd ganddo freuddwyd o agor siop goffi, a daeth at GATES i ofyn am gyngor ac roeddem yn gallu ei gyfeirio at gynghorydd busnes. Er hynny, wrth sgwrsio, daeth yn amlwg fod José wedi cael problemau wrth geisio am dystysgrif hylendid bwyd. Roedd wedi mynychu'r Coleg AB lleol ond bu'r cwrs deuddydd yn ormod iddo, yn bennaf oherwydd nad Saesneg oedd ei iaith gyntaf. Teimlodd nad oedd yn gallu cadw i fyny a'i fod yn arafu pethau i aelodau eraill y dosbarth. Mae hyblygrwydd prosiectau un-i-un GATES yn golygu ein bod wedi gallu darparu sesiynau wythnosol pwrpasol gydag aelod o GATES sy'n siarad Portiwgaleg sylfaenol, a darparu cymorth gydag adolygu ac amser ymarfer. Llwyddodd i gwblhau'r cwrs hylendid bwyd sylfaenol. Yn hollbwysig, darparodd GATES wasanaeth 'galw heibio' ad hoc – gan gynnig cefnogaeth foesol ac ymarferol yn ystod y cyfnod hwn

(mae hwn yn gymorth ychwanegol at ei gynghorydd busnes; egluro pethau mewn termau syml, trosi dogfennau i iaith haws, llungopïo, deunydd cyhoeddusrwydd a.y.b.). Mae José wedi bod mewn busnes am dros flwyddyn nawr, ac rydym yn dal i ddarparu cefnogaeth ad hoc.

Pwyles yw Margaret ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel glanhawraig mewn ffatri. Yng Ngwlad Pwyl roedd hi'n athrawes gelf a gweithiodd mewn dylunio graffig. Hoffai weithio fel artist dylunio graffig ac mae'n cydnabod bod angen iddi uwchsgilio gan fod y dechnoleg a ddefnyddir yn y DU yn wahanol. Mae hi'n cymryd rhan mewn profiad gwaith gyda thîm GATES, yn rhoi cylchlythyr Portiwgaleg/Pwyleg at ei gilydd gan ddefnyddio meddalwedd Quark. Yn hyn o beth mae'n teimlo ei bod yn helpu ei chymuned ac yn cael profiad gwaith gwerthfawr. Yn fwy diweddar cafodd ei thalu am wneud gwaith dylunio i dîm GATES, gan lunio llyfr ryseitiau o'r enw *A Taste of Merthyr* (sef canlyniad prosiect yn seiliedig ar fwyd/ffotograffiaeth y bu'n cymryd rhan ynddo). Hefyd cafodd ei chyfeirio at gynghorydd busnes ac mae wedi ymweld ag adran reprograffig y Brifysgol ac argraffwyr lleol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Hanesion yn ymwneud â chyfeirio at ddarparwyr eraill

Gadawodd Huw'r ysgol heb gymwysterau a daeth at GATES trwy sefydliad ELITE ac mae wedi cymryd rhan mewn cwrs cyfrifiaduron un-i-un a gwaith gyda phrosiect Cyfryngau Merthyr (PCM). Mae wedi cyrraedd lefel I Rhwydwaith y Coleg Agored (RhCA) mewn Ymchwilio'r Rhyngwyd ac mae wedi mynd ymlaen at gymryd rhan mewn cyrsiau gyda darparwyr eraill. Mae newydd ddechrau ar gwrs cerddoriaeth achrededig wedi'i leoli yn siop GATES.

Nid oes gan Gary gymwysterau, nid oedd erioed wedi gweithio ac mae'n dad i chwech. Daeth i GATES gyda'i *Gynghorydd Tad* (rôl a ddatblygwyd gan brosiect Genesis Cymru). Roedd wedi dioddef profiad gwael yn yr ysgol ac roedd ganddo broblemau'n ymwneud â chysylltu â phobl eraill ac nid oedd eisiau ymuno â dosbarth mawr. Wrth siarad â Gary daeth yn eglur fod ganddo ddiddordeb mewn cŵn ac felly datblygon ni gwrs cyfrifiaduron un-i-un yn ymwneud â gofal cŵn. Dros gyfnod, gwellodd hyder Gary, ac ar ôl cwblhau cwrs RhCA yn llwyddiannus a ddarparwyd trwy Addysg Gymunedol Oedolion yn adeilad GATES, teimlodd yn ddigon hyderus i ymuno â dosbarth achrededig gyda darparwr dysgu arall.

Hanesion yn ymwneud â symud ymlaen i brifysgol

Gadawodd Bev yr ysgol heb gymwysterau. Mae wedi ymwneud â nifer o ddarparwyr dysgu ac mae wedi dilyn nifer o gyrsiau. Ymunodd â phrosiect bolddawnsio gyda GATES ym mis Chwefror 2007. Bu hyn yn help iddi wella'i hyder fel ei bod yn gallu cymryd rhan mewn perfformiadau bolddawnsio. Hefyd cymrodd ran mewn Prosiect Gwneud Cerddoriaeth Un-i-un ble dysgodd sut i ddefnyddio Q BASE a REASON i wneud CDs cerddorol. Dywedodd Bev:

'Er fy mod i'n nerfus i ddechrau, cefais fy nghalonogi gan ffordd gyfeillgar a geiriau caredig y tiwtor (Paul). Roedd y ffaith fy mod i'n cael hyfforddiant unigol ac nid mewn grŵp mawr o gymorth oherwydd nid oeddwn yn cywilyddio os oeddwn yn gwneud camgymeriad neu'n cael rhywbeth yn anghywir gan mai dim ond fi a Paul oedd yno.'

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Wedi i GATES drefnu trip i'r ATRium (sef rhan o Brifysgol Morgannwg), penderfynodd Bev yr hoffai fynd i'r Brifysgol i astudio cynhyrchu cerddoriaeth. Cefnogodd tîm GATES hi wrth iddi wneud cais trwy UCAS a gwnaeth nifer o apwyntiadau iddi ar y campws, gan fynd â hi i gyfweiliadau a hwyluso trafodaethau gyda gwasanaethau myfyrwyr. Eleni cychwynnodd Bev ar ei Gradd Sylfaen ym Mhrifysgol Morgannwg, gyda'r bwriad o symud ymlaen at y cwrs BSc (Anrhydedd) mewn Technoleg Cerddoriaeth. Cam mwy fyth i Bev oedd penderfynu symud i lety myfyrwyr yn Nhrefforest ac ymgolli ei hun mewn bywyd fel myfyriwr. Mae tîm GATES yn parhau i'w chefnogi ac mae hi'n parhau gyda'i gwersi cerddoriaeth gyda GATES.

Ymdeolodd Michael yn gynnar ar ôl gweithio'n llwyddiannus dramor fel athro. Daeth i siop GATES oherwydd roedd wedi clywed am ein prosiectau ffotograffiaeth ac roedd eisiau cymryd rhan. Lluniodd stori ddigidol ar wefan www.merthyrdigitalstories.org.uk ac roedd yn chwilfrydig ynglŷn â'r posibiladau o gael diddordeb a gyrfa newydd. Ar ôl siarad â GATES a staff PCM, gwnaeth gais llwyddiannus i astudio ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn Ffotograffiaeth yn Ysgol y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae Michael yn parhau i ymweld yn gyson ag adeilad GATES.

Hanesion yn ymwneud â buddion cymdeithasol, iechyd ac eraill

I gychwyn, daeth Bridgett i sesiynau galw heibio gyda chyfaill. Ers hynny mae wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys dosbarthiadau a theithiau i arddangosfeydd. Mae Bridgett yn dioddef o iselder ysbryd ac yn aml byddai'n treulio wythnosau ar ei phen ei hun heb weld neb. Mae'n credu bod cymryd rhan ym mhrosiectau GATES wedi ei helpu i reoli ei salwch ac mae wedi nodi'n aml fod y dosbarthiadau'n rhoi "rheswm iddi godi yn y bore". Mae'n cefnogi GATES â brwdfrydedd ac mae wedi dod yn rhan o brosiect ffilm gyda PCM.

Cymerodd Jude ran mewn gweithgaredd celf a oedd yn rhan o brosiect y Darlun Mawr 2008. Nid oedd wedi cynhyrchu gwaith celf o'r blaen. Wrth drafod, daeth yn amlwg ei bod wedi byw bywyd amrywiol a chyffrous. Yn aml, adroddodd ei hanesion i'r dosbarth celf. Awgrymwyd y dylai roi pin ar bapur ac felly ymunodd â phrosiect ysgrifennu creadigol GATES. Fe'i hysbrydolwyd gan hyn a chyn hir dechreuodd gymryd rhan yn y prosiect adrodd straeon digidol. Ei champ ddiweddaraf oedd gosod ei hanes ar dudalen MySpace. Mae Jude wedi bod yn sôn wrth ei grŵp eglwys am ei llwyddiannau ac mae hyn wedi ysgogi diddordeb yng ngweithgareddau GATES ymhlith pobl yn eu harddegau.

Pedair egwyddor GATES a heriau ymgysylltu cychwynnol

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Mae hanesion pobl yn enghreifftio'r ffyrdd gwahanol y mae unigolion yn ymgysylltu â chyfluoedd anffurfiol i ddysgu. Mae modelau ar gyfer cynyddu ymgysylltiad ag addysg, megis y *model cynyddu* a drafodir yn fanwl isod, yn aml yn awgrymu llwybr llyfn ymlaen ar gyfer oedolion a dysgwyr cymunedol sy'n symud i fyny trwy lefelau gan ennill credydau a chymwysterau. Mae modelau'n gallu methu ag ystyried maint yr her o ymgysylltu dysgwyr yn y lle cyntaf – o gael oedolion anodd eu cyrraedd i mewn i holl fframwaith addysg – a'u holrhain er mwyn cael tystiolaeth bendant o gynnydd (gweler Payne et al 2007).

Mae McGivney (1999) yn dadlau ei fod "yn anodd gwahaniaethu'n eglur rhwng dysgu ffurfiol ac anffurfiol oherwydd yn aml mae croesi drosodd yn digwydd rhwng y ddau" (1999:1) Mae'n datgan bod dysgu anffurfiol yn gysyniad eang, llac ac amrywiol. Mae'n

digwydd yn yr "amgylchedd byw" ac yn aml mae heb ei gynllunio (gan y dysgwr o leiaf). Gan gadw'r llinell rhwng lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, mae'n rhoi'r amlinelliad canlynol o ddysgu anffurfiol:

- dysgu sy'n digwydd y tu hwnt i amgylchedd dysgu at bwrpas ac sy'n deillio o weithgareddau a diddordebau unigolion a grwpiau, ond efallai na fydd yn cael ei gydnabod fel dysgu;
- gweithgareddau dysgu nad ydynt yn seiliedig ar gyrsiau (trafodaeth, anerchiadau neu gyflwyniadau, gybodaeth, cyngor, arweiniad) a ddarperir neu hwylusir mewn ymateb i ddiddordebau ac anghenion a fynegwyd gan bobl o amrywiaeth o sectorau a sefydliadau (iechyd, tai, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg a hyfforddiant, gwasanaethau arwain).

Dadleuir bod hyn yn gallu arwain at “ddysgu cynlluniedig a strwythuredig megis cyrsiau byr a drefnwyd mewn ymateb i ddiddordebau ac anghenion a nodwyd ond a ddarperir mewn ffyrdd hyblyg ac anffurfiol ac mewn lleoliadau cymunedol anffurfiol.” (McGivney 1999:2)

Mae Prifysgol Morgannwg wedi nodi'r angen o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd yn ne ddwyrain Cymru am brosiect dysgu anffurfiol. Cafwyd cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf, sef rhaglen tymor hir a oedd yn ymateb i Community Regeneration: Review of Best Practice (Cynulliad Cymru 2001). Roedd y dadansoddiad arloesol hwn yn cydnabod yr angen am feithrin gallu hunangyfeiriedig gan gymunedau ac unigolion wrth ail-ddiffinio'u hunain a'u cymdeithas, wrth ddatgan a llunio eu dyfodol eu hunain, ac wrth gymryd rheolaeth dros yr adnoddau sy'n cynorthwyo twf cymunedol. Er hynny, mae ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd y bydd angen catalydd allanol i sbarduno'r broses hon. Gwelir Sefydliadau Addysg Uwch, gyda'u “trydedd cenhadaeth” o wasanaeth cyhoeddus, fel y cyfrwng delfrydol ar gyfer gwaith o'r fath.

Un o gyfres o ganlyniadau oedd esblygiad GATES Morgannwg, sef prosiect sy'n rhoi enghraifft barhaus o ddysgu anffurfiol trwy roi cefnogaeth i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sylfaenol ledled Merthyr Tudful. Mae ei bencadlys yn hygyrch ar y stryd fawr ac mae prosiectau poblogaidd yn cynnwys adfywio amgylcheddol, cynhyrchu ffilmiau, animeiddio, celf gymunedol, cerddoriaeth, a chyhoeddi pen-desg.

Egwyddor un – canolbwyntio ar weithgaredd diwylliannol

Gwnaethpwyd penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio gweithgaredd diwylliannol (yn yr ystyr ehangaf posibl) i ymgysylltu unigolion â math gwahanol iawn o brofiad dysgu, yn deillio o'r syniad y

dylid ystyried gweithgaredd diwydiannol fel rhan hanfodol o adfywio cymunedol (hefyd gweler Sefydliad Joseph Rowntree 1999; Talfan-Davies 2000; Dwelly 2001; Merli 2002; Evans a Shaw 2004).

y cyfranogwyr eu hun sy'n arwain a phenderfynu proses yr ymgysylltiad...Maen nhw wrth wraidd y broses...yn ymwneud â'r trafodaethau, cynllunio, gweithgareddau a chanlyniadau (Fegan 2003: 9).

Mae prosiect GATES yn defnyddio traddodiadau ac arferion lleol ardal a nodwyd, yn hanesyddol, am ei gallu i greu ei diwylliant ei hun, ac sydd yn adlewyrchu diddordebau ac achosion mwy cyfoes hefyd. Mae anawsterau defnyddio celf a diwylliant fel cyfrwng ar gyfer newid mewn ardal fel Merthyr (a oedd heb sinema tan yn ddiweddar, ac sydd heb theatr na man arddangos neu oriel ar hyn o bryd, adnoddau perfformio cyfyng, a diffyg buddsoddi cyffredinol yn isadeiledd y celfyddydau) yn golygu bod addasu byrfyfyr a chymhwyso yn ofynion allweddol yng ngwaith GATES Morgannwg.

Mae bwrdeistref Merthyr yn nodweddiadol o gymunedau Blaenau'r Cymoedd yn dilyn tranc y diwydiant glo. Bu unwaith yn dref lewyrchus ac annibynnol a ddenodd fuddsoddiad a llafur o bell – yn enwedig trwy haearn, glo a chwmnïau mawr rhyngwladol megis Hoover. Daeth tro mawr ar fyfyrers dirywiad diwydiannau trwm y 1980au. Mae llawer o fwynfeydd, gweithfeydd a ffatrioedd wedi cau. Mae ystadegau a gymerwyd o Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yn dangos maint ei hanawsterau ar hyn o bryd. Mae diweithdra ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Dim ond 56% o'r boblogaeth oedran gweithio sydd mewn gwaith

cyflogedig; y cyfartaledd ar gyfer Cymru'n gyffredinol yw 70%. Hefyd, dim ond 32% o'r boblogaeth oedran gweithio sydd mewn swyddi amser-llawn cyflogedig. Mae un ffactor allweddol sy'n cyfrannu at hyn ynghlwm wrth y lefelau isel cyfredol o gyrhaeddiad addysgol. Ym Merthyr, mae 33% o bobl o oedran gweithio heb gymwysterau addysgol ffurfiol. Yn ôl Prosiect Sgiliau Dyfodol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005), roedd 46% o bobl o oedran gweithio yng Nghymru heb ymgymryd ag unrhyw fath o hyfforddiant neu ddysgu yn y cyfnod o 12 mis cyn 1998, ond roedd y ffigwr hwnnw'n codi i 69% ar gyfer Merthyr. Yn 2001, dim ond 15.4% o bobl dros 16 oed oedd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o ddysgu yn yr ardal. Gellir dyfynnu ystadegau negyddol tebyg o ran iechyd, amddifadedd cymdeithasol, mân drosedd, ac yn y blaen.

Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd strategaeth adfywio o bwys ar gyfer ardal Merthyr Tudful – a chwaer gymunedau yn y cymoedd. Mae menter GATES yn gweithredu o fewn y cyd-destun mwy optimistaidd hwn, ym mhreif stryd fawr y dref. Ei nod yw gweithredu fel "porth" i ddyfodol mwy cynhyrchiol trwy ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i wella cyfleoedd byw ar gyfer pobl leol. Mae ffocws tymor byr a thymor canolig GATES ar annog ymgysylltiad â dysgu mewn ffordd nad yw'n heriol, i adeiladu hyder, datblygu hunan-barch ac ehangu gorwelion er mwyn hyrwyddo gallu personol a chymunedol i ddatblygu a newid. Yn y tymor hirach, mae'r prosiect yn gobeithio cael effaith sylweddol ar y lefelau isel cyfredol o gyrhaeddiad addysgol a chyfranogiad mewn addysg bellach/uwch yn llawer o gymunedau'r cymoedd.

Yn ymarferol, mae GATES yn estyniad corfforol o gyfadranau'r Brifysgol, a gynlluniwyd yn bwrpasol, gyda'r holl adnoddau a staff, mewn lleoliad

cymunedol. Mae GATES yn gweithredu mewn ffordd unigryw am nifer o resymau. Yn gyntaf, dewiswyd tîm GATES nid yn unig am eu galluoedd academig a'u galluoedd i reoli prosiectau, ond hefyd oherwydd bod ganddynt gysylltiad personol â'r ardal, naill ai'n byw neu wedi byw yn y dref. Mae hyn yn golygu bod ganddynt ymrwymiad personol nid yn unig i'r prosiect ond hefyd i'r gymuned ei hun. Roedd cysylltiadau personol rhwng staff, unigolion a sefydliadau o fewn y fwrdeistref yn amhrisiadwy wrth gychwyn y prosiect a goresgyn pryderon ynglŷn â dieithriaid o'r brifysgol yn 'cymryd drosodd'. Hefyd mae wedi profi i fod o fudd wrth geisio canfod pa ddysgu y mae pobl ei angen neu eisiau, neu wrth gyfeirio at ddarparwyr dysgu eraill. Felly, er enghraifft, mae syniadau ar gyfer prosiectau wedi datblygu mewn lleoliadau anffurfiol megis y siop trin gwallt neu'r siop sglodion lleol. Hefyd mae'n caniatáu i staff GATES weithredu fel modelau rôl a mentoriaid, i weithredu fel enghreifftiau patrymol mewn ffordd debyg i fudiadau trefniant dysgu'r gorffennol.

Egwyddor dau – ymgysylltiad y tîm

Mae aelodau'r tîm yn cymryd rhan mor gyflawn â phosibl mewn prosiectau. Os nad ydynt yn arwain prosiect, maen nhw'n drefnydd a/neu'n gyfranogwr. Dyma weithred fwriadol sydd wedi ennyn ymddiriedaeth a pherthynas agos rhwng cyfranogwyr ac aelodau tîm GATES ac sy'n caniatáu i ddeialog ystyrlon ddigwydd ble gall pobl siarad yn agored am eu profiadau bywyd. O ganlyniad gellir dyfeisio, datblygu neu addasu prosiectau i ateb anghenion penodol. Er enghraifft, pan ofynnir i unigolyn wrth gychwyn ynglŷn â pha ddysgu neu brosiect yr hoffon nhw gymryd rhan ynddo, yn aml mae ganddynt syniadau cyfyng ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl neu ar gael. Ar ôl sefydlu ymddiriedaeth, daw'r syniadau hynny'n ddiderfyn ac yn aml maen nhw'n wahanol iawn i'r rhai gwreiddiol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Egwyddor tri – dechreubwyntiau anffurfiol

Dewis bwriadol oedd natur anffurfiol y gwaith, ac felly hefyd y canolbwyntio ar weithgaredd prosiect yn hytrach na chwrs neu gymhwyster. Mae dull “meddal” yn angenrheidiol mewn cyd-destun lle mae ymddieithrio, apathi, a gwrthwynebiad i ddysgu ffurfiol yn rhwystrau allweddol. Mae'r lleoliad ar y stryd fawr yn caniatáu cynnal sesiynau blasu yn ffenestr y siop. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n cerdded ar hyd y stryd yn gallu gwyllo ein gweithdai ac fe'u hanogir i ddod oddi ar y stryd ac ymuno mewn – hyd yn oed os yw hynny am ychydig funudau'n unig. Tra bod gan GATES ystafell weithdy, ystafell gerdd, ac ystafell ffilm, mae llawer o'r gweithgareddau'n digwydd mewn lleoliadau cymunedol megis caffis, clybiau ieuencid, ysgolion, neuaddau eglwysi – manau ble mae pobl yn ymgasglu. Mae annog cyfranogiad mewn gweithgareddau prosiect mewn amgylchedd nad yw'n heriol yn gallu arwain at ymgysylltu yn nes ymlaen mewn dysgu mwy strwythuredig. Mae GATES, yn rhannol a *lle bo hynny'n addas i'r unigolyn*, yn ceisio gweithredu fel pwynt mynediad cychwynnol ar gyfer symud ymlaen trwy fframwaith seiliedig ar gynnydd sy'n gallu diweddu mewn addysg bellach neu uwch neu hyfforddiant. Yn wir, mae'r ymddiriedaeth sydd wedi datblygu rhwng y tîm ac aelodau'r gymuned wedi hwyluso cysylltiadau unigryw rhwng y brifysgol ac unigolion ym Merthyr sydd wedi galluogi i system trywydd cyflym ddatblygu.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r amrywiaeth o weithgareddau prosiect a gynhaliwyd gan GATES wedi bod yn arloesol ac yn eclecticig o ran creu

prosiectau sy'n dod o dan chwe thema gyffredinol iawn: cerddoriaeth, cyfryngau, celf, symudiad, cyflogadwyedd ac amgylchedd (gweler yr Atodiad). Yn hanfodol, mae llawer ohonynt wedi esblygu trwy drafodaeth a chydweithrediad â chymunedau lleol i sicrhau perthnasedd ac ymateb i anghenion hunanganfyddedig. Dros amser, mae tîm GATES wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cronfa ddata o 'ddiddordebau' lle cofnodir awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau, gweithdai, anghenion neu syniadau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Rhoddir blaenoriaeth i anghenion a gweithgareddau nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn unman arall. Lle darperir cyrsiau neu ddosbarthiadau gan eraill a ble mae pobl yn teimlo'n gysurus ynglŷn â mynychu'r fath gyrsiau (h.y. nid ydynt yn ofni ymuno â grŵp mwy o faint), cyfeirir unigolion atynt. Mewn llawer o achosion, mae aelodau GATES yn mynd gyda'r unigolyn at sefydliad arall er mwyn hwyluso cyfranogiad. Yn ogystal â'r compendiwm o ddiddordebau, cedwir cronfa ddata sgiliau hefyd (lle mae pobl leol sydd ag arbenigeddau gwahanol yn gallu dangos diddordeb mewn bod yn diwtor neu'n arddangoswr).

Egwyddor pedwar – cynhwysol o ran safbwynt ac agored i bawb

Mae'r grŵp targed allweddol yn parhau i fod y rhai sydd wedi'u dieithrio rhag dysgu traddodiadol ar hyn o bryd, ond mae GATES – lle mae hynny'n bosibl – yn gweithio gydag unrhyw un yn y gymuned. Nid oes cyfyngiadau o ran oedran neu allu, a daw cyfranogwyr o amrywiaeth o adrannau o fewn y gymuned gan gynnwys unigolion sydd ar yr ymylon, ysgolion, yr

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

henoed, troseddwy'r ifanc, gweithwyr mudol, grwpiau cymorth i fenywod, asiantaethau Cyfleoedd Ieuencid, cymdeithasau tai, ceiswyr llocher, ffoaduriaid, Barnardo's, a sefydliadau cam-drin cyffuriau ac alcohol.

Effaith

Hyd yn hyn, mae tua 7,500 unigolyn wedi cymryd rhan mewn dros 200 o brosiectau GATES. Gellir cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd; gall gyfeirio at gymryd rhan unwaith am gyfnod byr mewn prosiect ffotograffiaeth, neu weithdy un-i-un dwys sy'n parhau am nifer o wythnosau. Mae adeilad GATES yn cynnwys caffi cyfrifiaduron rhyngwrwyd hefyd sydd yn agored i bawb ac ar hyn o bryd mae ganddo dros 410 o ddefnyddwyr cyson. Hefyd mae GATES yn gweithredu fel canolfan alw heibio i bobl sydd eisiau pob math o gyngor ad hoc – lle gallan nhw gael mynediad i gwrs, dod i hyd i wybodaeth am astudio mewn prifysgol, sut i drefnu cyfrif eBay, neu hyd yn oed ble y gallan nhw ddod o hyd i deisien ddathlu!

Mae tîm GATES yn ymwybodol bob amser o'r angen am gynnydd ac yn unol â chyngor McGivney:

rhoi gwybodaeth, anogaeth...a strwythurau cynnal pryd bynnag mae hynny'n angenrheidiol... (1999: 80).

I'r perwyl hwnnw, datblygwyd partneriaethau rhyngasiantaethol gyda darparwyr dysgu sy'n cynnig


dysgu achrededig. Ar brydiau, cynhaliwyd y rhain yn adeilad GATES. Fel y sonir uchod, lle roedd gallu ac awydd yn amlwg, cafodd unigolion eu rhoi ar 'drywydd cyflym' i golegau a phrifysgolion. Unwaith eto, gall hyn olygu trefnu cyfarfodydd gyda staff academiaidd a staff cymorth perthnasol, a mynd gyda phobl i'r campws ar gyfer cyfarfodydd. Ond hefyd rydym yn cytuno â safbwynt Ecclestone (1993):

Mae'n rhaid i ni wybod pryd mae achrediad yn addas a buddiol, pryd mae'n cyfyngu ar gyrhaeddiad neu fynediad a phryd mae canlyniadau dysgu ac asesu er mwyn cynnal dysgu'n ddigon heb dystysgrif ffurfiol (1993: 179).

Felly gellir mesur cynnydd mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai unigolion yn symud ymlaen at brosiect GATES arall, eraill i waith, mae rhai yn dod yn rhan o grŵp cymunedol ac eraill yn troi at ddysgu mwy strwythuredig. Yn hanfodol, efallai mai nod yr un mor werthfawr fydd canlyniad cymryd rhan mewn prosiect, sef cynhwysiant cymdeithasol; dechrau busnes neu fudiad ddim er elw; neu hunangyflawniad a datblygiad. Nid yw'r cysylltiadau â Phrifysgol Morgannwg yn gwneud y tîm yn 'or-ffwdanus' ynglŷn â'r bobl yn eu gofal. Yn hytrach, eu buddiannau gorau a'u hanghenion yw'r brif ystyriaeth, ac os byddai asiantaeth neu sefydliad arall yn gallu'u gwasanaethu'n well, dyma beth all gael blaenoriaeth.

Cyd-destun polisi yng Nghymru

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Ers datganoli o fewn y DU, mae'r polisi sy'n effeithio ar ddysgu oedolion wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol. Roedd ein polisi cynhwysfawr cyntaf ar addysg a dysgu gydol oes, o'r enw *Y Wlad sy'n Dysgu*, yn dangos yr awydd i greu ymagwedd arbennig:

Byddwn yn cymryd ein cyfeiriad ein hunain o ran polisi lle y bo angen er mwyn cael y gorau ar gyfer Cymru.

(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001)

Mae polisi Y Wlad sy'n Dysgu wedi cael ei ddiweddarau ers hynny gan *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006), sy'n amlinellu cyfeiriad strategol y Cynulliad ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau hyd at 2010. Mae'r ddogfen hon, fel ei rhagflaenydd, yn pwysleisio ehangu cyfranogiad, cyfiawnder cymdeithasol a chydreddoldeb.

Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2007, ffurfiwyd clymblaid rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru. Cyhoeddodd y ddwy blaid eu cynllun: *Cymru'n Un*:

rhaglen flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru ar 27 Mehefin 2007. Mae'r polisi'n tanlinellu ymglymiad i ddysgu oedolion ac mae'n ailddatgan y dyhead am ddysgu gydol oes:

Ein gweledigaeth yw cymdeithas lle mai dysgu gydol oes yw'r norm, lle mae pobl Cymru yn mynd ati yn ddiwyd i gasglu gwybodaeth a sgiliau newydd drwy gydol eu hoes.

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru'n Un: 2007)

Mae nifer o bolisiau, strategaethau a mentrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n effeithio ar y weledigaeth hon o ddysgu gydol oes. Yn wir mae darpariaeth eang ar gyfer dysgu oedolion yng Nghymru yn cyfrannu tuag at fynd i'r afael â nifer o amcanion strategol adrannau'r Cynulliad. Mae'r hyn sy'n dilyn yn amlinellu o ddim llai nag 11 o bolisiau a strategaethau pellach a gyhoeddwyd dros gyfnod o wyth mlynedd sydd â pherthnasedd hollbwysig i ddysgu i oedolion a'r gymuned.

Creu'r cysylltiadau

Cyflawni Ar Draws Ffiniau (2006) oedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad annibynnol Syr Jeremy Beecham o'r modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu, sef *Creu'r Cysylltiadau* (2006). Daeth i'r casgliad fod perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n rhy anghyson. Yn aml roedd adrannau'n dameidiog ac yn gweithio mewn seilos h.y ar eu pennau eu hunain, a dylai dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru symud tuag at system o ymglymu dinasyddion addysgedig sy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus er mwyn chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas ehangach. Mae dysgu oedolion yn chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi hyn i ddigwydd, yn enwedig wrth ymgysylltu'r unigolion hynny gyda'r profiadau gwaethaf o addysg orfodol a 'ffurfiol'. Argymhellir polisi ail gyfle er mwyn ail-ymgysylltu oedolion economaidd anweithgar sydd wedi bod yn ddibynnol ar fudd-daliadau am gyfnod hir. Mae'r dasg hon yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i ddod ag arbenigwyr addysg, lles a chyflogaeth at ei gilydd er mwyn cyflawni adfywiad economaidd a diwylliannol.

Adolygiad o addysg bellach yng Nghymru

Syr Adrian Webb fu'n arwain *Addewid a Chyflawniad* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007), sef adolygiad Cymru-gyfan o'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae llawer o argymhellion Webb yn effeithio ar ddysgu oedolion – megis ail-ganolbwyntio cyllid cyhoeddus ar gyfer y rhai sydd heb gyrraedd lefel 2; y rhai sy'n perthyn i gymdogaethau â chyfranogiad isel; ehangu dysgu anffurfiol ac allgymorth, a threialu Cyfrifon Dysgu Unigol yn ogystal ag atebolrwydd o ran grantiau post hoc i uchafu hyblygrwydd wrth ddarparu ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig.

Sgiliau sy'n gweithio i Gymru

Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad trwy gydol 2008, cyhoeddodd Cynulliad Cymru gynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth. Roedd yn cynnwys ymateb i Adolygiad Leitch a oedd yn ymdrin â'r DU yn gyffredinol yn ogystal ag ymateb i'r argymhellion o fewn yr adolygiad ynglŷn ag addysg bellach yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cydnabod cyfraniad dysgu oedolion (yn enwedig o ran ymgysylltu'r rhai anoddaf eu cyrraedd) ac mae'n ymrwmo i ymgynghori ynglŷn â pholisi ar gyfer Oedolion a'r Gymuned yn Dysgu.

Mae *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008) yn cyfeirio nifer o weithiau at bwyntiau gweithredu gan gynnwys dysgu oedolion, yr angen i godi'r lefelau sgiliau yng Nghymru, ffocws ar bartneriaeth yn hytrach na chystadleuaeth, pwysigrwydd y trydydd sector wrth dargedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, cynnal poblogaeth sy'n mynd yn hŷn, ac ymelwa ar fuddion ehangach dysgu.

Sgiliau sylfaenol

Yn 2005 lanswyd *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfrif* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) sy'n berthnasol i bob oedran, gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, i fynd i'r afael â heriau o bwys a amlygwyd gan arolwg gwaelodlin yn 2005. Dangosodd yn gyffredinol bod 440,000 o oedolion (25% o'r boblogaeth oedran gweithio) heb sgiliau Llythrennedd Lefel 1 a bod tua 990,000 o oedolion (53% o'r boblogaeth oedran gweithio) heb sgiliau Rhifedd Lefel 1. Mae dysgu heb achrediad a ddarperir mewn lleoliad heb fod yn ffurfiol yn ffordd dda o ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd wedi cael y profiad gwaethaf o addysg yn flaenorol. Mae'r strategaeth yn gosod llythrennedd, iaith a rhifedd o fewn ystod eang o ddarpariaeth addysg i oedolion – gan gynnwys celf a chrefft, a thechnoleg gwybodaeth.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Yn aml mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn darparu dysgu oedolion mewn cyd-destunau heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, gan addasu darpariaeth ar gyfer grwpiau neilltuol a dargedwyd. Yn aml mae amgylcheddau dysgu yn fwriadol annhebyg i ysgol – sef amgylchedd y mae'r mwyafrif o oedolion anodd eu cyraedd yn awyddus i'w osgoi. Felly mae'r sefydliadau hyn mewn safle da i ymgysylltu dysgwyr mewn oed o ran dysgu sgiliau sylfaenol mewn lleoliadau lle maen nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan a chyflawni. Hefyd mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol mewn safle da i ymgysylltu dysgwyr mewn oed o ran dysgu 'cam cyntaf'; hynny yw, annog darpar ddysgwyr i 'roi cais ar ddysgu' a darparu amgylchedd hyblyg a hamddenol er mwyn gwneud hynny. Mae hyn yn rhoi ymarferwyr mewn safle da i allu adnabod angen, cefnogi unigolion a'u cyfeirio at ddarpariaeth neu wasanaethau priodol.

Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru sy'n ymgodi o fewn Cynulliad Cymru (yn hytrach na chael Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar wahân ar gyfer Cymru) wedi pwysleisio pwysigrwydd targedu plant er mwyn osgoi anawsterau dysgu yn nes ymlaen mewn oedolaeth. Yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer dysgu oedolion a chymunedol yw cydnabod effaith a photensial dysgu fel teulu. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhaglen *laith a Chwarae* (a gynlluniwyd i roi gwybodaeth ynglŷn â llythrennedd drwy chwarae i rieni neu ofalwyr plant 0-3 oed), neu ymgyrch *Darllenwch Filiwn o Eiriau Gyda'ch Gilydd*. Prif nod y rhaglenni dysgu fel teulu hyn yw cynyddu sgiliau sylfaenol plant, ond hefyd maen nhw'n gallu annog oedolion i fynd nôl i ddysgu.

Y strategaeth ar gyfer pobl hŷn

Mae penodiad arloesol Comisiynydd Pobl Hŷn o fewn Cynulliad Cymru a chyhoeddiad *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008) wedi atgyfnerthu hyrwyddo iechyd, lles ac ansawdd bywyd trwy ddysgu gydol oes. Gwelir dysgu oedolion fel gweithgaredd sy'n helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth, sicrhau y clywid eu lleisiau wrth wneud penderfyniadau, diogelu eu hiechyd, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ehangu cyflogadwyedd, a chroesi ffiniau cenedlaethau.

Strategaeth ar gyfer pontio'r cenedlaethau

Cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor o fewn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cymru yw'r Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau. Mae dysgu oedolion yn cyfrannu tuag at y nod o ddefnyddio cymhelliant y rhai sydd ag awydd i helpu o ran cyraeddiadau addysgol eu plant a'u hwyrion a thrwy hynny torri cylchoedd o anfantais a hefyd lleihau lefelau uchel o anweithgarwch ymhlith pobl 50 oed a hŷn.

Ysgolion bro

Mae agenda Ysgolion Bro yn adeiladu ar yr egwyddor bod ysgolion wedi'u seilio wrth wraidd cymunedau a'u bod yn creu ysbryd cymunedol ymhlith rhieni. Felly maen nhw'n sefydliadau priodol ar gyfer estyn allan at ddysgwyr mewn oed trwy gynniig cyfleusterau ac adnoddau mwy hygyrch a lleol, yn ogystal â bod yn lleoliadau delfrydol ar gyfer gweithgareddau dysgu fel teulu.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Ymgeisio yn uwch

Yn 2002, cyhoeddwyd *Ymgeisio yn Uwch*, sef y strategaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru hyd at 2010. Ehangu mynediad i addysg uwch yw'r flaenoriaeth allweddol, sy'n cynnwys creu partneriaethau Ymestyn yn Ehangach. Mae consortia o brifysgolion yn targedu pedwar grŵp difreintiedig: wardiau Cymunedau yn Gyntaf sydd â lefelau uchel o amddifadedd economaidd a chymdeithasol, poblogaethau Du a Lleiafrifoedd Ethnig, dysgwyr anabl, a'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Pobl ifanc 10-16 oed sydd wedi elwa fwyaf o fewn y prosiectau Ymestyn yn Ehangach, er y sefydlwyd rhaglenni dysgu fel teulu hefyd ar gyfer mentora gan grwpiau hŷn eu hoedran.

ADCDF – strategaeth ar gyfer gweithredu

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn codi ymwybyddiaeth a gweithredu ynglŷn â materion newid yn yr hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysau oddi wrth ddefnyddwyr. Anelir y strategaeth at bob sector o fewn addysg – ysgolion, ieuencid, addysg bellach ac uwch, a dysgu oedolion a chymunedol. Mae agenda ADCDF yn canolbwyntio'n gryf ar gydraddoldeb cymdeithasol. Ystyrir dysgu oedolion yn ei holl ffurfiau yn rhan hanfodol o'r agenda. Hefyd, bydd ADCDF yn cael ei fewnosod mewn cymwysterau ac achrediad, ac yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.

Cymunedau yn Gyntaf

Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw strategaeth hirdymor Cynulliad Cymru i wella amodau ar gyfer pobl sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru – nodwyd 142 ward, sy'n cynrychioli 18% o'r boblogaeth. Ei nod yw rhoi cyfleoedd i bobl leol ac i'r asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau yn y cymunedau ar gyfer y bobl hynny.

Strategaeth e-ddysgu

Mewn ymateb i'r newidiadau cyflym mewn technoleg a gwybodaeth mae Cynulliad Cymru wedi datblygu strategaeth e-ddysgu sy'n nodi heriau, cyfleoedd, a mynediad at ddysgu trwy ddefnyddio technoleg. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod y ffordd y mae unigolion yn dysgu yn bwysig ac nad yw strategaethau dysgu traddodiadol yn ddigonol bob amser. Mae dysgu oedolion wedi cefnogi'r neges hon ers tro, er bod addysgwyr oedolion yn ymwybodol hefyd o'r cyfyngiadau a'r angen i adeiladu cymunedau dysgu trwy ryngweithio wyneb i wyneb yn ogystal â thechnoleg newydd.

Cymru – economi yn ffynnu

Yn 2005, cyhoeddodd y Cynulliad Cymru: *Economi yn Ffynnu*, sef y fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd. Mae ffocws ar ddatblygu economaidd a busnes trwy uwchsgilio gweithluoedd sefydlog a gwella sgiliau newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur. Mae lleihau anweithgarwch economaidd yn fater allweddol, ac o fewn y cyd-destun hwn daw cysylltiadau rhwng hyfforddiant ac addysg i oedolion yn amlwg.

Cynllun Oes

Mae'r strategaeth iechyd, *Cynllun Oes*, (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at ddysgu oedolion. Yn wir, mae addysg a hyfforddiant yn tanatgu elfen datblygu gweithlu'r strategaeth a'r rhaglen ataliol o hybu iechyd. Yn anuniongyrchol, mae pob ffurf ar addysg i oedolion yn cyfrannu at amcanion *Cynllun Oes* hefyd oherwydd y buddion iechyd ehangach a ddaw trwy gymryd rhan mewn dysgu.

Agenda Gweddnewid

Anogir awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion i ffurfio partneriaethau ardal mewn darpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr dros 16 oed. Mater o bwys yw sicrhau bod yr hawliadau dysgu ar gyfer pobl ifanc – fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth gan y Cynulliad a gyhoeddwyd yn 2008 (*Mesur Dysgu a Sgiliau 2008*) – yn cael eu cyflawni trwy rannu adnoddau ac arbenigedd yn fwy effeithiol. Hefyd mae'r agenda gweddnewid yn cydnabod y potensial i'r fath bartneriaethau ymestyn ar gyfer addysg i oedolion y tu hwnt i 19 oed, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith. Efallai y bydd hyn yn arbennig o ddichonadwy yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn ne ddwyrain Cymru, lle rhagwelir dau gampws dysgu gydol oes ar gyfer dysgwyr o bob oedran.

Strategaeth Oedolion a'r Gymuned yn Dysgu

Wrth i'r papur hwn gael ei ysgrifennu, mae cyfnod ymgynghori ar gyfer strategaeth oedolion a'r gymuned yn dysgu bron â gorffen. Mae cynigion yn cynnwys polisiâu adnoddau sy'n seiliedig ar gonsortia, cynnwys y sector gwirfoddol fel darparwyr, cysylltu dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, a chynnwys sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill o fewn y portffolio oedolion a'r gymuned yn dysgu.

Dysgu oedolion a mentrau polisi

Mae'n eglur bod dysgu oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni ystod eang o strategaethau a blaenoriaethau Cynulliad Cymru ar draws amrywiaeth o adrannau. Mae'r cyfraniad anuniongyrchol yn ehangach fyth, o ystyried y dystiolaeth sylweddol i gefnogi buddion ehangach dysgu o ran iechyd, cydlyniant cymdeithasol a chyfranogiad dinesig. Tra bod hyn yn mynegi effaith eang a phositif dysgu oedolion, mae wedi arwain at y risg o ddarpariaeth sy'n dameidiog a heb ei chyd-drefnu'n ddigonol ar draws meysydd polisi. Yn wir, mae llawer o ddarparwyr yn canfod biwrocratiaeth ddiangen a dyblygu prosesau. Ar yr un pryd, mae adnoddau'n annigonol ar gyfer darparu'r plethora o bolisiâu. Mae darparwyr OGD yn amlygu'r problemau sy'n codi oherwydd:

- prosesau gwahanol ar gyfer ceisiadau am gyllid (gyda meini prawf gwahanol);
- amodau gwahanol ar gyllid;
- trefniadau monitro a systemau casglu data gwahanol;
- cyfnodau cyllido gwahanol.

Yn ogystal â'r gorlwytho biwrocratiaeth ymddangosiadol, mae meini prawf a chyfnodau gwahanol ar gyfer cyllid yn ei gwneud hi'n arbennig o heriol i ddarparwyr ddatblygu a gweithredu strategaethau hirdymor. Er mwyn sicrhau cyllid, a fydd efallai ar gael yn anfyfych y tu hwnt i gylch blynyddol, yn aml mae'n rhaid i ddarparwyr ymestyn eu datganiadau cenhadaeth i gynnwys y fenter ddiweddaraf. Hefyd nodir bod mentrau'n cael eu datblygu ar sail gronns, gyda mentrau newydd yn cael eu hychwanegu at hen rai yn hytrach na'u disodli, sy'n arwain at 'orlwyth o fentrau'.

O bolisi i arfer – datblygu model o gynnydd

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Gyda chymaint o bolisiau'n ymwneud â dysgu oedolion a chymunedol, mae'n gallu bod yn anodd gwybod pa gam i'w gymryd nesaf. Mae angen darparu mwy o gydlyniant a pharhad ar gyfer unigolion yn ogystal â chymunedau sy'n ymgysylltu â dysgu. Mae un ffordd ymlaen yn ymwneud â defnyddio *cynyddu* dysgu fel model ar gyfer dilyniant, sy'n adeiladu ar gyraeddiad addysgol blaenorol a symud ymlaen tuag at gymwysterau uwch. Mae'n defnyddio Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004) sydd – fel y system yng Ngogledd Iwerddon – â naw cam dilyniantol o gyraeddiad sy'n dechrau ar lefel mynediad a gorffen gydag ymchwil Doethuriaeth.

Mae'r model *Cynyddu* yn cydnabod dysgu anffurfiol fel dechreubwynt lefel mynediad ac wedyn mae'n – targedu lefelau mwy ffurfiol o ymgysylltiad addysgol trwy ddarpariaeth cyrsiau byrion achrededig. Mae'r

model yn manteisio ar y blaenoriaethau sector a amlinellir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) a drafodwyd eisoes, a'i nod yw llanw bylchau o ran darpariaeth a nodwyd yn y *Cynllun Gweithredu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008). Mae'n canolbwyntio ar gwricwlwm eang ei gwmpas sy'n apelio at ddiddordebau poblogaidd mewn gyddoniaeth, gofal iechyd, cymdeithaseg, seicoleg, astudiaethau amgylcheddol, y cyfryngau, newyddiaduraeth, animeiddio, darlledu, technoleg ddigidol a'r celfyddydau perfformio. Er mwyn darparu ffocws ymarferol ar gyfer dysgu oedolion a chymunedol, mae'r model yn cael ei weithredu mewn mentrau sydd ar waith ar hyn o bryd o fewn yr ardaloedd lle bu diwydiannau trwm yn ne Cymru, gan gynnwys ardaloedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent ym Mlaenau'r Cymoedd.

Mae'r rhain yn ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer adfywio, uwchsgilio a chyflogaeth. Mae angen ymestyn allan at y poblogaethau hynny sydd fel arall wedi ymddieithrio rhag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ddilynol. Y nod cyffredinol yw sefydlu partneriaeth traws-sector uwch sy'n tynnu ynghyd arbenigedd ac adnoddau sefydliadau addysg uwch, colegau, ysgolion, cyflogwyr, mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol sylfaenol. Mae'r uchelgais eithaf yn ymwneud â sefydlu campysau dysgu gydol oes ym Merthyr a Glyn Ebwy yn dilyn colli llawer iawn o swyddi ar ôl cau gweithfeydd mawrion megis Hoover a Gwaith Dur Corus.

Felly mae'r dull cynyddu yn dadlau o blaid rhannu buddiannau ehangu mynediad gan brifysgolion sydd â chenadaethau ymgysylltu dinesig tebyg er mwyn cyrraedd mäs critigol ar gyfer gweithgareddau ehangu mynediad trwy gyfuno arbenigedd ac adnoddau dysgu gydol oes. O ganlyniad bydd dileu dyblygu, symleiddio cyfathrebu â rhanddeiliaid, a gwella ansawdd yn arwain at lefelau gwell o ymgysylltu.

Partneriaeth a'r buddiolwyr

Mae temtasiwn i gynnig fframwaith partneriaeth pob-sector sy'n cynnwys ysgolion, colegau addysg bellach, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, cyflogwyr a phrifysgolion o fewn ardal ddaearyddol benodol. Ymhen amser mae'n bosibl y gellir cyflawni hyn, ond hyd yn hyn mae'r sector addysg uwch wedi dysgu gwersi gwerthfawr yn seiliedig ar wendidau difrifol y diweddar Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH). Ein harsylwad gofidus ni (gweler Morgan et al 2004; Saunders et al 2007) oedd bod diffyg effaith gyffredinol gan y partneriaethau hyn; yn hytrach, fe'i nodweddyd fel siopau siarad a ddominyddwyd gan y sector cyhoeddus ochr yn ochr â chynllunio strategol gwag. Roedd anweithgarwch y CCAH – er hynny, roedd rhai eithriadau nodedig – yn llyncu adnoddau

gwerthfawr darparwyr heb wneud gwahaniaeth i ddysgwyr fel buddiolwyr.

Mae'r model cynyddu'n glynu at gontinwwm partneriaethol mwy canolbwyntiedig a hydrin a ddatblygwyd gan Trevor Sandford (2009) ar gyfer Cyngor Dysgu a Sgiliau Caint a Medway, ac a weithredwyd yn llwyddiannus gan Tribal Consultants yn achos rhaglenni Braenaru Daearyddol diweddar yng Nghymru. Mae Sandford yn gosod partneriaethau ar raddfa yn amrywio o wrthdaro i gydffederasiwn:

- *Gwrthdaro*: drwgdybiaeth
- *Cystadleuaeth*: hunan-les a pholareiddio
- *Cydymffurfiad*: amcanion hysbys ar gyfer cydweithio ond dim dilyn drwodd
- *Cydfodolaeth*: cytundebau tiriogaethol
- *Cydweithredu*: rhywfaint o hunanberth os nad yw'n ymyryd â'r busnes craidd
- *Cydgysylltu*: ymdrechion i osgoi dyblygu
- *Cydweithio*: datrys problemau ar y cyd a defnyddio adnoddau cyfunol
- *Cyberchnogaeth*: mae teymgarwch yn ymestyn i'r bartneriaeth yn hytrach na'r sefydliadau unigol
- *Cydffederasiwn*: cenhadaeth gyfunol a hunaniaeth sydd yn cael ei reoleiddio a'i ffurfioli

Nod y model Cynyddu yw dim llai na statws cydffederasiwn trwy adeiladu ar lwyddiant sicr a hanes partneriaeth gyfredol *Ymestyn yn Ehangach* o'r enw *Campws Cyntaf*. Mae'r prosiect sylweddol hwn wedi cael effaith oherwydd bod canolbwyntio parhaus a realistig ar ganlyniadau addysg uwch trwy gynnal tair canolfan ranbarthol yn seiliedig ym Mhontypridd, Casnewydd a Chaerdydd a gefnogir gan holl brifysgolion a cholegau de ddwyrain Cymru.

Hyd yn hyn mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio ar ysgolion cyfun er mwyn cyflwyno addysg uwch i blant 10-16 oed na fyddent fel arall yn ystyried y syniad


neu'r uchelgais o fynd i goleg neu brifysgol. Roedd un canlyniad allweddol yn ymwneud â darparu hyfforddiant achrededig i genhedlaeth newydd o dros 600 Anogwr Dysgu ledled Cymru (Saunders 2008).

Nawr mae'r potensial i fynd gam ymhellach a sefydlu partneriaeth dysgu gydol oes sydd wedi'i ymrwymo i bob grŵp oedran, nid pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau'n unig. Ei nodwedd fyddai broceriaeth dros ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd addysg uwch yn effeithiol ac effeithlon ledled Blaenau'r Cymoedd er mwyn targedu poblogaethau o ddysgwyr sydd wedi'u diffinio fel rhai sydd o dan ryw fath o anfantais.

Y nodwedd allweddol sy'n gyrru'r math hwn o weithio mewn partneriaeth yw y bydd mwy o fuddiolwyr pan gyfunir adnoddau ac arbenigedd ehangu mynediad gan brifysgolion a cholegau. Bydd llai o ddyblygu wrth ganoli gwaith megis:

- Marchnata a chyhoeddusrwydd
- Penodi a rheoli timau prosiectau
- Arweiniad a chynllunio llwybrau dilynol
- Gwaith tîm swyddogion datblygu
- Rheoli cytundebau cyflogaeth ar gyfer yr holl staff Cynyddu
- Cynnig am adnoddau ychwanegol
- Cynrychiolaeth ar ran addysg uwch o fewn consortia awdurdodau lleol, cyflogwyr, y sector gwirfoddol ac addysg bellach
- Penodi a rheoli tiwtoriaid
- Cynllunio cwricwlwm a datblygiad addysgol
- Sicrhau ansawdd, gwerthuso a monitro

Y Continwwm Dilyniant



Ffigur 1: Dilyniant o ddysgu anffurfiol i ddysgu tystysgrifedig

Mae'r continwwm yn dechrau gyda *dysgu anffurfiol*, a nodweddir gan chwilfrydedd, difyrwch a mwynhad. Fel mae McGivney'n ei bwysleisio (1999), efallai nad oes cwricwlwm, asesu neu ystafell ddsbarth ffurfiol – ond mae adeiladu hyder a gwybodaeth yn digwydd wrth i bobl ymgysylltu mewn prosiectau a mentrau. Mae pwyslais ar strategaethau pedagogiaidd yn ymwneud â dysgu seiliedig ar broblemau ac ymchwil gweithredol oherwydd yr angen i sicrhau perchnogaeth, perthnasedd ac ymreolaeth ddi-oed o fewn cymunedau difreintiedig. Mae'r dulliau dysgu anffurfiol hyn yn ymestyn allan i bobl sydd fel arall yn troi eu cefnau ar addysg a hyfforddiant oherwydd i lawer ohonynt mae sefydliadau addysgol yn golygu methiant a chael eu gwrthod.


Mae'r continwwm yn ceisio trawsnewid o astudiaethau anffurfiol i astudiaethau ffurfiol o fewn lleoliadau cymunedol, a nodweddir gan ymrwymiad hanfodol gan unigolion i ddulliau mwy strwythuredig o ddysgu sy'n arwain at achrediad cyn-gradd gan brifysgolion ac ennill cymwysterau mynediad.

Felly mae'n dibynnu drwyddi draw ar drafod agos rhwng partneriaid addysg uwch ac addysg bellach er mwyn hwyluso'r trawsnewid i lefelau dysgu uwch. Mae llawer o'r prosiectau a enwir uchod yn cynnwys dilyniant i astudiaethau lefel 2 a 3, sy'n cynnwys cofrestru ar gyfer modiwlau a chyrсияu achrededig. Bydd safleoedd lleol ar gyfer prosiectau a chyrсияu yn cynnwys ysgolion, canolfannau gwirfoddol, canolfannau hamdden a chymunedol, gweithdai, ac ysgolion haf ar gampysau.

Wedyn mae darpariaeth dysgu uwch yn canoli ar ddarpariaeth sy'n seiliedig ar gampysau sy'n arwain at dystysgrifau a diplomâu, ac o hynny ymlaen at gymwysterau lefel gradd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda cholegau addysg bellach er mwyn darparu Gradd Sylfaen yn lleol ac mewn modd ymatebol.

Mae darpariaeth ar lefelau uwch yn tueddu dibynnu mwy ar adnoddau o ran defnyddio'r technolegau diweddaraf, amnewid a diweddarau offer, datblygu cymwysiadau arloesol ar gyfer addysgu ac asesu, cael cymorth technegol digonol, a chael mynediad at arbenigedd academiaidd proffesiynol o fewn adrannau neu gyfadrannau prifysgol amrywiol. Felly mae angen lleoli adnoddau'n strategol mewn ffyrdd effeithlon a chost-effeithiol wrth gynnig y mynediad ehangaf i ddysgwyr a chyflogwyr.

O fewn y cyswllt hwn mae egwyddor sylfaenol ar gyfer partneriaeth er mwyn cynyddu yn ymwneud â rhoi cyngor a chefnogaeth i gyfleoedd addysg uwch trwy ddatblygu rôl broceriaeth rhwng partneriaid prifysgol fel y gellir cyfeirio buddiolwyr at lwybrau dysgu priodol. Felly mae Cynyddu yn cynnig dilyniant academiaidd o ran symud trwy naw lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Hefyd mae'n ceisio am ddilyniant ffisegol o ran annog dysgwyr i symud rhwng pentrefi, trefi a dinasoedd de ddwyrain Cymru er mwyn cael mynediad at adnoddau addysg uwch a phellach priodol mewn camau gwahanol yn y cylch dysgu.



Ffigur 2: dimensiwn ffisegol dilyniant academiaidd

Ymgysylltu cymunedol yn ne ddwyrain Cymru

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Mae llawer o enghreifftiau ymarferol o bartneriaethau dysgu dull Cynyddu llwyddiannus yn ne ddwyrain Cymru. Mae llawer yn dangos effaith yn seiliedig ar weithio cydweithredol, ac eraill wedi adeiladu'n llwyddiannus ar brosiectau a mentrau blaenorol. Mae llawer wedi llwyddo dod â darparwyr dysgu gydol oes sector cyhoeddus ynghyd â'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Dilyniant trwy Bartneriaeth

Ysbrydolwyd hyn gan *Community University of the Valleys* (Elliott et al 2000), sef prosiect arloesol gan Adran Addysg Oedolion a Chymunedol Prifysgol Abertawe. Yn dilyn hyn mae prifysgolion Casnewydd a Morgannwg mewn cydweithrediad â Sefydliad Addysg y Gweithwyr wedi helpu dysgwyr mewn oed yn ne Cymru i symud ymlaen at lefelau dysgu uwch yn eu cymunedau eu hunain.

Menter BeWEHL (Bettering Wellbeing, Education, Health and Lifestyle)

I ddechrau roedd y prosiect yn cefnogi menywod a oedd yn byw ar Ystâd Y Betws. Ers hynny mae BeWEHL wedi ymestyn darpariaeth i ardaloedd eraill yng Nghasnewydd. Yr amcanion cyffredinol yw nodi effaith dysgu ar hyder cyffredinol a lles cyfranogwyr y prosiect a gwerthuso rôl ac effaith ymchwil gweithredu ar gyfranogwyr a'r gymuned ehangach.

Cwm Llynfi

Sefydlodd y prosiect hwn gefnogaeth gweithdy ar gyfer dysgwyr hwyrach yn ardal Maesteg trwy brosiectau a rhaglenni sy'n ymwneud â defnyddio technolegau rhyngryd, cynllunio gwefannau, a chyhoeddi pen-desg.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Siopau Gwyddoniaeth

Mae'r rhain wedi cyflwyno agweddau ar wyddoniaeth i ddysgwyr o bob oedran sy'n cynhyrchu eu prosiectau eu hunain gydag academyddion yn hwyluso amrywiaeth eang o ddi-ddordebau. Mae'r siopau wedi'u lleoli ym Merthyr a Thredeg ar ac maen nhw'n gwneud defnydd eang o gyfleusterau allgymorth. Mae'r pynciau'n cynnwys ymgyrchoedd amgylcheddol, iechyd a maeth, a chymwysiadau dylunio a thechnoleg peirianeg.

Allgymorth

Yn darparu gweithdai blasu heb achrediad a chysiau sylfaen byrion i oedolion mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys neuaddau pentref, ysgolion cymunedol, sefydliadau YMCA, a chapeli. Mae'r pynciau'n cynnwys ysgrifennu creadigol, o greu i gynhyrchu, ffotograffiaeth stryd, ffotograffiaeth ddigidol, sgiliau radio, celf gymunedol, seryddiaeth, seicoleg, a datblygu cymunedol.

Ysgol Haf Morgannwg

Yn rhoi cefnogaeth ddwys i oedolion sy'n ymweld â champws prifysgol am rwng wythnos a phythefnos ac sy'n cynnwys defnyddio gwasanaethau preswyl.

RISE

Gweithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion ac arbenigwyr cymunedol ac arwain er mwyn sefydlu llwybrau dilynol ar gyfer miloedd o ddysgwyr mewn canolfannau dysgu RISE ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy.

Equinex

Yn canolbwyntio ar bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, a phobl ag anableddau, gan gynnwys y rhai sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistig, anableddau synhwyraidd ac anableddau dysgu.

Sefydliad Arian Cymunedol Cymru


Dosbarthu gwybodaeth ynglŷn ag arfer gorau ym maes Arian Cymunedol trwy seminarau, cynadleddau, digwyddiadau hyfforddi, cyhoeddiadau, erthyglau, cyfweiliadau, fideos, gwefan, rhestrau e-bost a chanllawiau cam-wrth-gam.

Y Ganolfan Adfywio Cymunedol

Cynnal archwiliadau cymunedol ar gyfer wardiau Cymunedau yn Gyntaf a fforymau o fewn awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau partneriaethol, yn ogystal â datblygu Gradd Sylfaen a rhaglen MSc mewn Adfywio Cymunedol ym Mhrifysgol Morgannwg.

Casgliad

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Mae'r papur hwn wedi cynnig blas yn unig ar rai o'r ffyrdd gwahanol o weithio gyda phobl a'r canlyniadau y gellir eu cyflawni trwy ymrwymiad i ymgysylltiad llawn mewn gweithgaredd 'trydedd cenhadaeth' sydd â'r nod o osod prifysgolion yn y cymunedau lleol y maen nhw'n dymuno eu gwasanaethu. Bu nifer o heriau ar hyd y ffordd sydd wedi effeithio ar dîm GATES a'r ffordd mae'n gweithredu. Er enghraifft, er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus, mae'r tîm wedi gorfod archwilio ffyrdd o ddatblygu grwpiau prosiect sydd wedi gweithredu am gyfnod hirach i fod yn sefydliadau gwirfoddol/dim er elw.

Mae gweithio yn y modd hwn sy'n 'canolbwyntio ar y person' yn ddwys iawn. Mae sicrhau bod gan bobl lais a'u bod yn cael eu clywed, gwrando ar hanesion eu bywydau, eu llwyddiannau a'u problemau, yn gallu cymryd llawer o amser a threthu'r emosionau hefyd. Yn aml mae'r gwaith rhagarweiniol hwn yn cael ei ddiystyru ac i'r byd allanol mae'n ymddangos yn ddistrywthur a llac. Yn aml, mae'r rhaid gweithio mor gyflym â phosibl wrth ddatblygu prosiectau pwrpasol ac wedyn addasu'r prosiectau hynny er mwyn ateb anghenion cymuned, os ydynt i fod o fudd i gyfranogwyr yn syth.

Yn aml, golyga hyn bod aelodau tîm GATES wedi gorfod dod yn arbenigwyr ar raddfa fechan mewn amrywiaeth o feysydd. Mae hyn wedi galw am sgiliau newydd a darparwyd rhai ohonynt trwy'r brifysgol, ac eraill o fannau eraill (er enghraifft, sgiliau syrcau, sgiliau cynghori). Mae'n rhaid cydbwysu'r datblygu hyn â llwyth gwaith, sydd yn aml yn digwydd gyda'r nos ac ar benwythnosau. Yn ogystal, mae byw'n lleol yn golygu mai anaml y mae'r staff oddi ar ddyletswydd ac mae'r llwyth gwaith a'r oriau'n anrhagweladwy.

Nid yw effeithiau ehangach dysgu anffurfiol yn cael eu cydnabod bob amser. Y rhai sydd wedi hyrwyddo GATES fwyaf yw'r myfyrwyr sydd wedi lledu'r gair – i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach. Mewn un dathliad diweddar, roedd tair cenhedlaeth o un teulu'n bresennol, ac roeddent i gyd wedi cymryd rhan mewn gwahanol brosiectau gyda GATES. Ni wyddys hyd yn hyn beth fydd yr effaith am y dyfodol ar y genhedlaeth nesaf o ran mynychu prifysgol, mynychu'r ysgol a pherfformiad, ymgysylltu â'r gymuned, a'r arolygon am waith. Mae'r sylwad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd olrhain ac ymchwilio cynnydd tymor hirach, a chydabod cyfyngiadau difrifol atebion cyflym, tymor byrrach nad ydynt yn gynaliadwy.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Mae'n hanfodol i lwybrau dilyniant fod o fudd i'r unigolyn ac ni ddylid eu gyrru gan dargedau a osodir gan gyrff cyllido neu'r rhai nad ydynt yn ymwneud â darpariaeth dysgu anffurfiol. Yn sicr, ni ddylai llwybr neu gyfeiriad fod ym meddwl y person sy'n cychwyn prosiect newydd. Mae gan y prosiect werth ynddo'i hun. Fel yr awgryma McGivney:

Dylid gwerthfawrogi'r profiadau dysgu cyntaf am yr hyn ydyn nhw yn ogystal ag am osod pobl ar lwybr dysgu (1999: 87).

Mae dilyniant at ddysgu arall yn ganlyniad potensial pwysig ac mae'n berthnasol i ddarparwyr adnoddau sy'n dilyn rheolau cyllido. Er hynny, mae'n bwysig i ddysgwyr ddiffinio drostyn nhw'u hunain beth yw cynnydd. Mae tîm GATES yn gweld cynnydd mewn nifer o ffyrdd, o fwy o hunanhyder hyd at fynychu prifysgol – a llawer o bethau eraill. Mae mynychu cwrs yn weddol hawdd i'w ddogfennu, ond nid felly lles a hyder – er enghraifft olrhainio lleihad yn yr angen am feddyginiaeth ar gyfer iselder ysbryd.

Tra bod cynnydd yn cael ei werthfawrogi mewn llenyddiaeth academiaidd a rhethreg gan lywodraeth, yn ymarferol nid yw'n derbyn digon o bwysigrwydd gan y rhai y tu allan i faes dysgu anffurfiol. Efallai mai oherwydd yn aml mae'n anodd nodi data ansoddol ynglŷn â'r ffordd y mae bywyd unigolyn wedi newid wrth gymryd rhan mewn prosiectau dysgu anffurfiol. Dyma faes y mae angen cyfeirio ato mewn ymchwil yn y dyfodol.

Yn olaf, ond yn bwysicaf oll, mae cyllido byrdymor yn fater sy'n effeithio ar lawer o fudiadau. Mae rhai o'r prosiectau a adolygwyd yn yr adran flaenorol wedi cau oherwydd nid oedd mwy o adnoddau ar gael. O ganlyniad mae staff ar gytundebau byrdymor yn chwilio am waith mwy sicr trwy gydol cyfnod prosiect, ac mae hyn yn arwain at drosiant uchel ac anghysondeb mewn darpariaeth. Yn achos yr effaith ar y dysgwyr eu hunain, mae'r perygl yn parhau y bydd gobeithion yn cael eu codi ac yna'u dryllio. Mae ceisiadau blynyddol am gyllid yn arbennig o niweidiol i gynllunio strategaeth a datblygu prosiectau hirdymor, ac mae hyn yn cael effaith fawr ar ffyrdd o weithio. Wedi dweud hynny, mae'r cyfan oll yn ymddangos yn ddi-nod pan mae rhywun yn derbyn cerdyn diolch, tusw o flodau, yn dathlu, neu'n darganfod bod un o'n cyfranogwyr blaenorol wedi dechrau busnes ei hun neu wneud cais i fynd i brifysgol.

Nawr, mae Prifysgol Morgannwg a Chasnewydd yn datblygu strategaeth hirdymor mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, colegau addysg bellach, ac awdurdodau lleol. Prifysgol Sefydliad Cymoedd yw'r enw, ac mae'n hyrwyddo'r model Cynyddu trwy ddysgu anffurfiol a chyrsgiau byrion, Graddau Sylfaen, a rhaglenni datblygu gweithlu. Erbyn hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau cynllun cyllido chwe blynedd.

Cyfeiriadau

- Burge, A. (2000) Miners' learning in the South Wales coalfield 1900-1947 *LLAFUR* 8 (1) 69-97
- Carlton, S. a Soulsby, J. (1999) *Learning to Grow Older and Bolder* - NIACE
- Chevalier, A. a Feinstein, L. (2006) *Sheepskin or Prozac: The Causal Effect of education on mental health*, Papur trafod IZA Rhif 2231
- Coffield, F. (gol) (2000) *The necessity of informal learning* Gwasg Policy: Bryste
- Connolly, M. Rees, G. a Furlong, C. (2008) *Manteision Ehangach Dysgu Oedolion Niace Dysgu Cymru: Caerdydd*
- Davies, K. (2003) Classes Colleges and Communities: aspects of a hundred years of adult education in the South Wales valleys in Smith, D. a Stephens, M. (goln) *A community and its university*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd
- Davies, P. (2003) Widening participation and the European Union: direct action – indirect policy? *European Journal of Education*, 38(1), 99–116.
- Dench, S. a Regan, J. (2000) *Learning in Later Life: Motivation and Impact*. Yr Adran Addysg a Chyflogaeth.
- Dwelly, T. (2001) *Creative Regeneration: lessons from ten community arts projects*. Efrog: Joseph Rowntree
- Elliott, J. Francis, H. Humphreys, R. ac Istance, D. (goln) *Communities and their universities: the challenge of lifelong learning* Llundain: Lawrence and Wishart
- Evans, G. a Shaw, P. (2004). *The Contribution of Culture to Regeneration in the UK: a Review of the Evidence*. Llundain. DCMS
- Fegan, T. (2003) *Learning and Community Arts* NIACE: Lifelines 11
- Ecclestone, K. (1993) Accreditation in adult education. *Yn Adults Learning*, 4, 7, tudalennau 178-80
- Y Comisiwn Ewropeaidd (2001) *Making a European Area of Lifelong Learning a Reality* Brwsel: Cyhoeddiad gan y Comisiwn
- Senedd Ewrop (2000) *Cyngor Ewropeaidd Santa Maria da Feira Conclusions of Presidency 19/20 Mehefin 2000*
- Papur Gwyn gan yr Undeb Ewropeaidd (1995) ar gael o <http://ec.europa.eu/education/doc/official/keydoc/lb-en.pdf>
- Feinstein, L. Hammond, C. Woods, L. Preston, J. a Bynner, J. (2003) – *Adult Education and Health and Social Capital*, Centre for Research on the Wider Benefits of Learning
- Feinstein, L. (2002) *Quantitative estimates of the social benefits of learning 2: Health (Depression and Obesity)* Centre for Research on the Wider Benefits of Learning
- Furlong, C. Selby, A. a Turner, J. (2008) *Partnerships for planning and delivering Adult and Community Learning in Wales*, NIACEDC: Caerdydd
- Humphreys, R. a Saunders, D. (2000) Beyond rhetoric in lifelong learning, yn Daugherty, R. Philips, R. a Rees, G. (gol) *Education Policy in Wales: Explorations in Devolved Governance*. Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd
- James, K. (2004) *Winning Hearts and Minds: How to promote health and well-being through participation in adult learning* NIACE
- Sefydliad Joseph Rowntree (1999) *Cynhadledd Culture Makes Communities*, Abertawe 1999
- Lewis, R. (1993) *Leaders and teachers: adult education and the challenge of Labour in South Wales 1906-1940* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- McGivney, V. (1999) *Informal learning in the community: a trigger for change and development*. National Institute of Adult and Continuing Education.

Merli, P. (2002). *Evaluating the social impact of participating in arts activities*, International Journal of Cultural Policy. 8 (1): 107-118

Milburn, A. (2005) *Fabian Society New Year Speech* 2005

Morgan, A. Saunders, D. a Turner, D. (2004) Community Consortia and post-compulsory education; a local approach to local problems *Journal of Vocational Education and Training* 56 (2)

Payne, R.R. Maddy, K. a Wakely, K. (2005) Where do they go? A study of progression in the South Wales Valleys *Journal of Adult and Continuing Education* Cyfrol 11 (2) Hydref

Preston, J a Feinstein, L. (2004), *Adult Education and Attitude Change, Wider Benefits of Learning* Research Report No. 11, London WBL

Sabates, R. a Feinstein, L. (2004) *Education, training and the take up of preventative health care* - Centre for Research on the Wider Benefits of Learning

Sandford, T. (2009) *Cyfathrebiad Personol yn cyfeirio at ddeunydd heb ei gyhoeddi o 2003 ar Adolygiadau Ardal Strategol (Strategic Area Reviews) ar ran y Cyngor Dysgu a Sgiliau.*

Saunders, D. (2008) *Anogwyr Dysgu Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Saunders, D. Payne, R. a Davies, L. (2007) Partnership working via community consortia: a higher education perspective *Journal of Adult and Continuing Education* 13 (1) 88 – 100

Talfan-Davies, G. (2000) *Decade: Cardiff Bay Arts Trust 1990-2000*

Polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi (2001) Caerdydd Llywodraeth Cynulliad Cymru : Caerdydd

Reaching Higher (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (2004) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Sgiliau Dyfodol Cymru (2005) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Cymru: Economi yn Ffynnu (2005) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2005) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri (2005) yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni ar draws Ffiniau – Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Cynllun Oes: Gwasanaeth Iechyd o'r Radd Flaenaf i Gymru (2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru (2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Addewid a Chyflawniad – Adolygiad Webb o addysg bellach yng Nghymru (2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru – Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru – Dull newydd o gyflwyno Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Ymgynghoriad (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Atodiad

Themâu a Phrosiectau Dysgu Anffurfiol GATES Morgannwg

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Cerddoriaeth

Technoleg cerddoriaeth: Mae Cyfranogwyr yn dysgu sut i recordio, defnyddio meicroffonau, cymysgu, dilyniannu midi, samplu, effeithiau; maen nhw'n dysgu sut mae cerddoriaeth yn gweithio, sut y defnyddir technoleg cerddoriaeth i greu recordiadau, a'r ffordd y mae'r diwydiant cerddoriaeth yn gweithredu. Defnyddir meddalwedd megis 'Cubase 4', 'Reason' a 'Wavelab'.

Gwersi Allweddellau: Mae cyfranogwyr yn gweithio ar sail un-i-un, yn dysgu sgiliau allweddell a cherddoriaeth.

Bandwagon: Bu 16 grŵp a dau gôr ysgol (104 o bobl) yn mynychu'r Brifysgol i gynhyrchu CDs cerddorol. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys trefnu gweithdai yn y Brifysgol ar gyfer bandiau a cherddorion lleol ynglŷn ag agweddau ar gynhyrchu cerddoriaeth megis recordio a golygu.

Gwneud CDs: Gan ddefnyddio stiwdios recordio ar y campws.

Ysgol Haf Bandwagon: Daethpwyd â chynhyrchwyr cerddoriaeth o'r radd flaenaf i Ferthyr i weithio gyda bandiau lleol.

Taith Bandwagon i Affrica: Taith i Cape Town i weithio ym maestref Langa er mwyn sefydlu ysgol gerddoriaeth.

Bandwagon – Modiwl Prifysgol: Cyflawnodd y bobl ifanc a fu yn Affrica fodiwl Prifysgol 20 credyd a seiliwyd ar eu profiadau.

Sgiliau DJ a Rapio: Prosiect a gynhaliwyd gydag wyth cyfranogwr o Raglen Dewisiadau. Roedd y grŵp hwn o bobl ifanc a oedd wedi'u heithrio o'r system addysg yn anodd gweithio â nhw ond llwyddodd y prosiect i ddatblygu ymddiriedaeth gychwynnol a gellir adeiladu ar hyn ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Gweithdai Blas ar Offerynnau Taro Indiaidd: Gweithdai blas ar ddrymio a gynhaliwyd mewn manau gwahanol yn y fwrdeistref.

Gitâr: Gwersi darllen cerddoriaeth a chwarae.

Band Affricanaidd ar y stryd: Perfformiad gan Amanpondo ar y stryd.

Noson Dathlu Affrica: Noson Dathlu Affrica i godi arian ar gyfer prosiectau ysgol Gerddoriaeth Affricanaidd.

Sesiynau STOMP Dosbarth Anghenion Arbennig: Defnyddio cerddoriaeth fel ffordd o gyfathrebu.

Sesiynau Blasu STOMP: Gwneud cerddoriaeth gydag offerynnau cartref.

Cyfryngau

Noson gyda Rob Brydon: Gydag Owen Money'n cyflwyno. Sgwrs gyda'r actor a'r comediwr Rob Brydon, a fu'n gyfle i bobl Merthyr ddysgu am ei fywyd a'i yrfa.

Blas Ar Ferthyr: Prosiect yn ymwneud â bwyd a ffotograffiaeth gyda phobl o bob rhan o'r fwrdeistref.

Merched Calendr: Mewn partneriaeth â Llyfrgelloedd Merthyr, cyfrannodd y prosiect calendr at galendr 2006.

Prosiect Animeiddio Coal House: Mewn partneriaeth â'r BBC a First Compact ac Ysgol Caedraw. Prosiect tair wythnos oedd hwn ble cafodd disgyblion Caedraw gyfle i wneud cartŵn wedi'i animeiddio ac ymweld â champws Prifysgol Morgannwg.

Noson Oscars Cymunedol: Dathliad o wneud ffilmiau cymunedol.

Straeon Digidol am Iechyd: Straeon digidol wedi'u creu gan grŵp o broffesiynolion iechyd.

Adrodd Straeon Digidol: Creu straeon digidol gyda phobl o bob rhan o Ferthyr.

Prosiect Animeiddio ar Amrywiaeth: Mewn partneriaeth â Champws Cyntaf. Prosiect tair wythnos ble cafodd disgyblion Santes Fair gyfle i wneud ffilm wedi'i hanimeiddio ynglŷn ag amrywiaeth diwylliannol ac ymweld â champws Prifysgol Morgannwg.

Hanes Teuluol: Prosiect hanes teuluol gyda thrigolion tai gwarchod lleol.

Fishy Tales 2006: Cynhyrchu llyfryn sy'n rhoi gwybodaeth ar bob agwedd o'r gamp yn yr ardal. Fe'i defnyddir fel arf dysgu i gyflwyno pobl i fuddion pysgota â gwialen a materion cysylltiedig yn ymwneud â'r amgylchedd a chadwraeth.

Fishy Tales 2007/08: Yn dilyn llwyddiant y llyfryn cyntaf, ac oherwydd y galw gan y cyhoedd, crëwyd diweddariad.

Hwyl yn yr Ystafell Dywyll: Rhoddodd y prosiect hwn gyfle i unigolion weithio mewn ystafell dywyll yn tynnu lluniau heb ddefnyddio camera. Mae ffotogramau'n rhoi cyfle i ni ddod yn ymwybodol o dechnegau a chemegau ystafell dywyll a'u defnydd mewn ffordd ddifyr.

Prosiect Pontio'r Cenedlaethau: Mae'r cyfranogwyr wedi cyfuno ffolderi unigol sy'n cynnwys gwybodaeth, trafodaethau a gweithgareddau eraill y mae'n rhaid iddynt eu gwneud o sesiwn i sesiwn. Yn ystod y ddwy sesiwn olaf yn Llys Kevin Ryan, gweithiodd y cyfranogwyr mewn grwpiau i gynhyrchu posteri a oedd yn crynhoi thema'r prosiect, sef 'gemau'. Roedd y rhain yn amrywiol ac roedden nhw'n portreadu diddordebau'r grwpiau yn ogystal â rhoi golwg gyffredinol ar y prosiect a'i brosesau.

'Life's a Bitch' ffilm fer: Ffilm a grëwyd gan bobl ifanc sy'n byw yn ystadau Trefechan a'r Gumos.

Merthyr – Golwg Newydd: Prosiect ffotograffiaeth yn ymwneud â phobl sydd wedi dod i fyw, gweithio neu astudio ym Merthyr o wledydd eraill. Rhoddwyd camerâu tafladwy yn wythnosol i bobl yng Ngholeg Merthyr a Chaffi Serrano. O ganlyniad i'r prosiect, cynhaliwyd nifer o arddangosfeydd a chynhyrchwyd set o 16 cerdyn post.

Cylchlythyr: Cylchlythyr mewn Portiwgaleg a Phwyleg – i annog integreiddio a chyfraniadau gan rai o'n trigolion newydd.

Taith Ffotograffiaeth: Taith diwmod i Henffordd i fynychu 'Gŵyl Ffotograffiaeth Henffordd'.

Cardiau Post Celf Gyhoeddus: Cynhyrchwyd nifer o gardiau post/cardiau gwybodaeth i hyrwyddo celf gyhoeddus leol a osodwyd gan GATES o fewn y fwrdeistref. Myfyriwr ar brofiad gwaith yn y siop fu'n gyfrifol am y ffotograffau a chynlluniau'r cardiau.

Digwyddiadau Ymylol Wythnos Ffoaduriaid: Cynhaliodd Prifysgol Morgannwg gynhadledd a gweithdai i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â ffoaduriaid. Dangoswyd ffilmiau a bu trafodaethau mewn amrywiaeth o leoliadau yng ngogledd a de'r fwrdeistref yn ogystal â gweithdai a dangos ffilmiau mewn ysgolion lleol.

Taflen Iechyd Rhywiol: Gan weithio gyda grŵp o fyfyrwyr o Barnardo's, nod y prosiect oedd llunio cynnyrch o ryw fath a oedd yn rhoi gwybodaeth am iechyd rhywiol a gafodd ei ymchwilio, ysgrifennu, cynllunio ac argraffu gan y grŵp. Bu'r grŵp yn ymweld â'r Brifysgol a sefydliad iechyd lleol a chyflawnwyd RhCA mewn ymchwil fel rhan o'r prosiect. Mae'r daflen derfynol bellach wedi'i mabwysiadu gan Hybu Iechyd Cymru.

Adrodd Straeon: Uwchsgilio aelodau'r gymuned mewn sgiliau a buddion adrodd straeon.

Prosiect Ffilm Llwybr Trevithick: Ffilm gan dri bachgen o Grŵp Ieuenctid Cymdeithas Tai Merthyr Tudful. Roedd y ffilm yn dogfennu prosiect Llwybr Trevithick. Dysgodd y tri bachgen amrywiaeth o dechnegau ffilmio a chyfweld.

Hysbysebion Fideo: Creu hysbysebion fideo gydag aelodau'r gymuned.

Comics Fideo: Creu comics fideo gydag aelodau'r gymuned.

Mur Menywod: I godi ymwybyddiaeth ynglŷn â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, adeiladwyd mur yn swyddfa GATES gan ddefnyddio ffotograffau. Ar 8 Mawrth (Diwrnod Rhyngwladol y Menywod) rhoddwyd blodau a ffeithiau i fenywod yng nghanol y dref.

Ysgol Aeaf: Ysgol ffilm a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd i fis Ionawr.

Celf a Serameg

Gweithdy Serameg: Bu cyfranogwyr yn cael eu dwylo'n frwnt a chreu gwrthrych serameg.

Dosbarth Paentio: Paentiodd cyfranogwyr rannau gwahanol o ddarlun mawr gan ddefnyddio paent acrylig. Rhoddwyd y rhannau at ei gilydd i greu un llun a oedd yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau gwahanol.

Gwnio a Chreffftwaith: Lluniodd cyfranogwyr amrywiaeth o fagiâu gan ddefnyddio offer gwnio.

Traddodiadau Celf a Chreffft (Gwau): Cwrs 12 wythnos a oedd yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ddysgu sut i wau a chreu ac arbrofi â gwau.

Celf: Cyfres o ddsbarthiadau celf.

Sioe Gradd mewn Celf ym Mhrifysgol Morgannwg: Taith i sioe Gradd mewn Celf y Brifysgol.

Sesiynau Celf Galw Heibio: Gweithdy galw heibio yn seiliedig ar gelf i'r rhai oedd heb ddim profiad neu ychydig iawn o brofiad o ran celf.

Cerfluniau Pren Celf yn y Parc: Crëwyd tri cherflun pren ym Mharc Cyfarthfa. Trefnwyd y sesiynau gyda myfyriwyr o Ysgol Uwchradd Cyfarthfa. Cynlluniwyd yr arddangosfeydd cerfluniau i ddenu ymwelwyr i'r parc hefyd.

Taith Artes Mundi: Aethpwyd â grŵp o bobl i arddangosfa Artes Mundi yng Nghaerdydd.

Baneri a Llumanau, Gwaith Datblygu: Cynhaliwyd gweithdai i helpu gweithwyr datblygu a grwpiau cymunedol greu a phaentio baneri cynffon draig sy'n addas ar gyfer gwyliau a gorymdeithiau.

Celf Gymunedol (Cwiltio) yng Nghyfarthfa: Blas ar gwiltio yn y gymuned.

Celf Gymunedol (Cwiltio) yn Nhreharris: Blas ar gwiltio yn y gymuned.

Gwneud Cardiau a Blychau Pasg: Prosiect crefft ble roedd pobl yn creu blychau i ddal anrhegion.

Adeiladu Crychydion: Prosiect celf gan ddefnyddio deunyddiau ecogyfeillgar. Helpodd yr artist Sally Matthews pobl i wneud dros 20 crychyd mewn diwmod difyr a sesiwn flasu ym Mhen-y-wern.

Creu Gemwaith: Dysgodd y cyfranogwyr dechnegau sylfaenol gweithio gydag arian a chynllunio a gwneud darnau o emwaith.

Gwneud Barcud: Prosiect a gynhaliwyd yn Niwmod Hwyl Pen-y-wern.

Bywllunio yng Nghyfarthfa: Gweithdy undydd – blas ar fywllunio.

Cystadleuaeth Logo: Lansiodd GATES gystadleuaeth i gynllunio logo newydd i GATES. Cynhaliwyd gweithdai gyda grwpiau lleol a chafodd ei hysbysebu i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Gwneud Llwy Garu: Defnyddiwyd offer traddodiadol i greu a chynllunio llwyau caru.

Gwneud Llwy Garu/Addurn: Cwrs pedair wythnos oedd hwn ac roedd gan gyfranogwyr ddewis i greu naill ai llwy garu neu addurn gan ddefnyddio offer traddodiadol a modern.

Paentio Portread Modern: Prosiect celf a dylunio gyda Grŵp Dewisiadau Troedyrhiw. Bu wyth person ifanc yn gweithio'n unigol ac fel grŵp. Bu'r cyfranogwyr yn creu hunanbortread modern.

Gemwaith Arian: Gweithio gydag arian ac efydd.

Murlun Clwb ar ôl Ysgol Trefechan: Creu murlun serameg gyda phobl ifanc yn Nhrefechan.

Gwneud Cerdyn Sant Ffolant: Defnyddiodd y cyfranogwyr ddefnyddiau a thechnegau gwahanol i greu cardiau Sant Ffolant.

Gwneud Cerdyn Nadolig Dyfrlliw: Dangoswyd i'r cyfranogwyr sut i ddefnyddio paent a thechnegau dyfrlliw ac aethpwyd ati i greu cardiau dyfrlliw ar thema i'r Nadolig.

Symud

Grŵp Dawns Bedlinog: Gweithio gyda phobl ifanc yn ne'r cymoedd i sefydlu grŵp dawns.

Bolddawnsio: Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dawns fel dull ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a throsglwyddo sgiliau newydd. Wedi'i dargedu at fenywod yn unig, mae'r prosiect yn caniatáu i fenywod fwynhau ymarfer corff ysgafn mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chyfeillgar.

Gweithdai Syrcas: Cyfres o weithdai syrcas teithiol gyda phobl ifanc sy'n byw yn ardaloedd Y Gurnos, Dowlais, Aberfan a Throed-y-rhiw.

Gweithdy Syrcas: Gweithdy gyda Bridging the Gap Youth.

Dawns yng Nghyfarthfa: Dawnsio Pwylaidd a dwyreiniol gan ddawnsywyr Jamiloa a dawnsywyr Pwylaidd.

Gweithdai Dawns: Gan weithio gyda Chymunedau yn Gyntaf Bedlinog, mae'r prosiect hwn wedi denu dros 50 cyfranogwr i gyfres o weithdai sy'n gorffen gyda pherfformiad cymunedol.

Hyfforddiant Pêl-droed – y Tîm Troseddau leuenctid: Hyfforddiant pêl-droed proffesiynol dros 10 wythnos. Wedi'i drefnu mewn partneriaeth â swyddog datblygu pêl-droed yn y gymuned yng Nghanol Gymunedol Dowlais.

Ymarfer Corff Ysgafn i Gerddoriaeth: Gweithdy chwe wythnos ar gyfer y rhai sydd â symuedd cyfyngedig.

Gweithdai Jygl: Mae'r prosiect hwn yn caniatáu i bobl o bob oedran gymryd rhan mewn dysgu cyfoed. Mae'r sgiliau a ddysgir yn cynnwys jyglu bagia ffa a pheli, sgarffiau, cylchoedd a dibs yn ogystal ag amrywiaeth o offer syrcas arall.

Prosiect Caiacio: Gweithio gyda'r Prosiect Cynhwysiant leuenctid.

Wythnos y Syrcas yn dod i'r Dref: Treuliodd ymarferwyr a pherfformwyr syrcas wythnos yn ystod ysgol haf ar gampws Prifysgol Morgannwg yn cynnal gweithdai gydag arweinwyr ieuentid a gweithwyr datblygu. Yn ystod yr ail wythnos, bu ymweliadau â dau leoliad (un yng ngogledd y fwrdeistref ac un yn y de) a chynhaliwyd gweithdai syrcas drwy'r wythnos. Gorffennodd y sesiynau gyda'r cyfranogwyr i gyd yn cymryd rhan mewn diwrnod perfformio.

Penolau, Boliau a Babis: Dosbarth ymarfer corff wedi'i dargedu at famau yn eu harddegau a'u babanod.

Blas ar Adweitheg ac Iechyd: Adweitheg, tylino pen a dwylo.

Therapiau Cyflenwol, Tylino Dwylo, Trelewis: Diwrnodau blasu therapïau dwylo cyflenwol a chyflwyniad i olew persawrus.

Cyflogadwyedd

Cwrs Bwyd a Hylendid Sylfaenol: Cwrs hyfforddi Tystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol un-i-un ar-lein

Llyfryn a DVD Cyngor Busnes: Cynhyrchu llyfryn a DVD ar gyfer pobl sy'n ystyried sefydlu busnes ym Merthyr Tudful

Cynhyrchu Cardiau Busnes: Roedd gemydd ifanc eisiau hysbysebu ei menter newydd ac roedd angen cardiau busnes ami i'w dosbarthu ymhlith darpar brynwyr.

Cychwyn Busnes: Cefnogi pobl wrth iddynt ddechrau eu busnes eu hunain.

Cyngor ar TG: Cyngor ac arweiniad ar sail un-i-un. Hefyd cafodd y myfyriwr gymorth i gyflawni RhCA mewn sgiliau ymchwil ar y rhyngwrwyd a cheisio am le ar gwrs hyfforddi Tystysgrif Gweithwyr Ieuentid CBSMT

Busnes Cerddoriaeth: Mae bandiau'n cael cyfle i ddysgu am ochr fusnes creu cerddoriaeth.

Datblygu Sgiliau Un-i-un: Prosiect gydag un o ddefnyddwyr gwasanaethau Cymorth i Fenywod. Mae cyfle 'un-i-un' unigryw yn galluogi datblygu sgiliau mewn amgylchedd cyfeillgar ac anfygythiol.

Quark: Rhan o brosiect uwchsgilio ar gyfer cyflogaeth.

Profiad gwaith: Profiad gwaith yn swyddfa GATES Morgannwg.

Saesneg ar gyfer Gwaith: Darpariaeth Saesneg un-i-un wedi'i dargedu at weithwyr mudol sy'n chwilio am waith.

Hyfforddiant Bywyd: Gweithdai a chymorth unigol i bobl sy'n wynebu newidiadau a cholled yn eu bywydau.

CTMT Galw Heibio: Cyfrifiaduron: Hwyluso sefydlu safle galw heibio ag adnoddau rhyngwrwyd ar gyfer tai gwarchod lleol.

Yr Amgylchedd

Sut i adeiladu tyrbîn gwynt: Gweithdy undydd a gynhaliwyd yn ffenestr siop GATES ble roedd cyfranogwyr yn gallu adeiladu a thrafod tyrbînau gwynt a materion amgylcheddol.

Gofod Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gymunedol: Diwrnodau gwyddoniaeth wedi'u cynnal mewn partneriaeth â Siopau Gwyddoniaeth Cymru.

Adeiladu Cwrwgl: Yn dilyn llwyddiant her cwrwgl cychwynnol, mae'r prosiect hwn wedi galluogi 100 grŵp/ysgol i gymryd rhan mewn adeiladu cwrwgl. Mae'n caniatáu i bobl ifanc, o dan oruchwyliaeth, ddefnyddio offer llaw nas gwelir fel arfer mewn cymdeithas fodern. Mae hyn datblygu gweithio gyda cyfryngau gwahanol ac annog cyrhaeddiad a hunanhyder. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn cynnwys Caedraw, Edwardsville, Heolgerrig, Pantysgallog, St Aloysius, Trelewis, Twynrodyn, Ynysowen a Santes Fair.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Prosiect Meini Mawr Llwybr Trevithick: Crëwyd 15 maen mawr o garreg Pennant gyda thestunau Cymraeg a Saesneg wedi'u chwythellu amynt â thywod. Dylanwadwyd ar y dewis o destunau gan grŵp ysgrifennu lleol (Sgwad Sgwennu Cyffrous) a dogfennau hanesyddol. Mae'r meini fel nodwyr llwybr ar hyd y ffordd ac maen nhw'n cyfrannu tuag at ddehongliad lleol o'r llwybr.

Prosiect Gwenithfaen Llwybr Trevithick: Gosodwyd pedwar slab mawr o wenithfaen (8'x 41') ar Llwybr Trevithick ger twnnel Trevithick. Mae'r meini'n adlewyrchu themâu gwahanol. 1) delwedd injan, 2) planhigion lleol, 3) delwedd arddulliedig o'r llwybr, 4) delweddau o bobl leol a gymerodd ran yn y prosiect. Lluniwyd y delweddau hyn gan amrywiaeth o grwpiau ac unigolion o ardal Merthyr, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Afon Taf a'r Prosiect Cynhwysiant Ieuenctid.

Arddangosfa Cerfluniau Pren Llwybr Trevithick:

Comisiynwyd artist llif gadwyn i gynnal arddangosfa cerflunio mewn ffair leol. Gosodwyd y gweithiau celf gorffenedig ar Llwybr Trevithick. Mae'r cerfluniau'n dangos planhigion a gysylltir â Llwybr Trevithick.

Taith Pobl Ifanc i Wlad Pwyl ac Auschwitz: Mewn partneriaeth â phrosiect Equal, aethpwyd â grŵp o bobl ifanc i Auschwitz.

Gŵyl Romeo a Juliet: Gŵyl Gelf a Gwyddoniaeth ledled y fwrdeistref ar thema Romeo a Juliet.

Route 66: Darlith ar thema'r Freuddwyd Americanaidd a ffyrdd yn America. Trafod profiadau a diwylliant a rhoi golwg fanwl ar Route 66 yn nhermau myth a realiti.

Glanhau'r Taf: Bu GATES Morgannwg yn gyfrifol am lanhau sbwriel o'r rhan o'r afon Taf sy'n rhedeg trwy Ferthyr.

Cyfires Trafodaethau ynglŷn ag Addysg
Oedolion a'r Gymuned yn Dysgu yn
Ne Cymru: Persbectif Polisi ac Arferion

ISBN 978-1-907207-00-6 Ionawr 2010

Dyma un o gyfres o bapurau trafod a gomisiynwyd gan ESCalate.
Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

Cyhoeddwyd gan

Higher Education Academy Education Subject Centre
ESCalate

University of Bristol, Graduate School of Education
35 Berkeley Square, Clifton, Bristol BS8 1JA UK

Ffôn: +44 (0)117 331 4291

E-bost: heacademy-escalate@bristol.ac.uk

Ffacs: +44 (0)117 925 1537

www.escalate.ac.uk

© Danny Saunders, Lesley Hodgson, Cerys Furlong ac ESCalate Ionawr 2010

Rhoddir caniatâd i gopïo a dosbarthu'r ddogfen hon ar ffurf ddinewid yn unig, at ddibenion addysgu,
ymchwil, astudio preifat, beimiadaeth ac adolygu, cyn belled â bod yr awdur gwreiddiol ar cyhoeddwr yn
cael eu cydnabod.